Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 317 (Cymru) – 16 Mawrth 2022

## Etholiadau Mai 2022: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Yn unol â'n dull ar gyfer darparu diweddariadau ynghylch newidiadau i enwau, disgrifiadau, ac arwyddluniau pleidiau a nodwyd ym Mwletin 316, gallwn gadarnhau na fu unrhyw ddiweddariadau mewn perthynas â phleidiau a gofrestrwyd i sefyll ymgeiswyr mewn etholiadau yng Nghymru ers hynny

**Wrth dderbyn enwebiadau, rhaid i Swyddogion Canlyniadau wirio bod enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a roddir ar y ffurflen enwebu, yn ogystal â'r arwyddlun y gwneir cais amdano, wedi eu cofrestru ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol a bod y manylion a ddarparwyd yn cyfateb i'r rheiny a gofrestrwyd.** I sicrhau eich bod yn gweld y wybodaeth ddiweddaraf, efallai y bydd angen i chi ddileu eich hanes pori neu adnewyddu'r dudalen. Os nad ydych yn sicr sut mae gwneud hyn, dylai eich tîm TG allu eich cynorthwyo.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am y wybodaeth sydd ar y cofrestrau.

## Etholiadau mis Mai 2022: gwasanaethau tu allan i oriau gwaith yn ystod cyfnod yr etholiad

Byddwn unwaith eto'n darparu gwasanaeth cyngor dros y ffôn tu allan i oriau i ddelio ag ymholiadau gweinyddu etholiadol brys wrth i'r etholiadau agosáu ac yn syth ar ôl iddynt ddod i ben ym mis Mai 2022, ac roeddem yn credu y byddai'n ddefnyddiol eich atgoffa sut i gysylltu â ni.

**Cysylltu â ni yn ystod oriau swyddfa arferol**

Byddwn ar gael rhwng 08:30 a 17:30 trwy gydol cyfnod yr etholiad i'ch cefnogi fel arfer.

Os ydych yn cysylltu â ni yn ystod oriau swyddfa arferol, defnyddiwch ein
**Llinell Cymorth a Chanllawiau: 0333 103 1929**.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau Mai 2022: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau**

Diweddariad ynghylch newidiadau diweddar i'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol.

**Etholiadau mis Mai 2022: gwasanaethau tu allan i oriau gwaith yn ystod cyfnod yr etholiad**

Gwybodaeth ar sut allwch chi gysylltu â ni i gael cyngor yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Etholiadau mis Mai 2022: diweddariad ymwybyddiaeth gyhoeddus**

Gwybodaeth am ystod o adnoddau ymwybyddiaeth gyhoeddus, a dolenni atynt.

**Swyddi ar gael yn y Comisiwn Etholiadol**

Gwybodaeth am bedwar swydd gwag a sut i wneud cais.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

Neu gallwch anfon e-bost atom trwy:

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**Cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa arferol**

Bydd ein gwasanaeth cyngor tu allan i oriau arferol ar gael o ddydd Llun 28 Mawrth ymlaen gan gynnwys ar y penwythnosau a gwyliau banc trwy gydol cyfnod yr etholiad. Bydd y gwasanaeth gyda'r hwyr ar gael o 17:30 tan 21:00, gyda gwasanaeth ar y penwythnos a gŵyl banc ar gael o 10:00 tan 16:00.

Yn ogystal, bydd gwasanaeth 24 awr ar gael ar y diwrnod pleidleisio, ac ar y penwythnos ar ddydd Sadwrn 7 Mai a dydd Sul 8 Mai.

Gellir cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa trwy ffonio: 07824 464350.

Fel arall, anfonwch e-bost at Catherine Uphill trwy cauphill@comisiwnetholiadol.org.uk.

## Etholiadau mis Mai 2022: diweddariad ymwybyddiaeth gyhoeddus

**Mae 'Oes 5 'da ti?' yn fyw!**
Mae ein hymgyrch 'Oes 5 'da ti?' bellach yn fyw a bydd yn cael ei gynnal hyd at hanner nos ar 14 Ebrill – y dyddiad cau ar gyfer cofrestru. Mae ein sianeli yn cynnwys teledu, fideo ar alw (teledu dal i fyny), radio, sain digidol, arddangosiad digidol (baneri gwefan) a chyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi yn gan y wasg ddi-dâl, partneriaethau, a gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol.

Gallwch lawrlwytho adnoddau digidol a phrint i helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr etholiadau ar ddod, dyddiadau cau ar gyfer cofrestru, a'r gwahanol ffyrdd i bleidleisio.

**Mae Wythnos Croeso i dy Bleidlais hefyd yn fyw!**
Mae ein hymgyrch 'Croeso i dy bleidlais' bellach yn fyw a bydd yn cael ei gynnal hyd at hanner nos ar 14 Ebrill. Byddwn yn cyrraedd pobl ifanc 16 a 17 oed drwy hysbysebion Instagram a Snapchat a fydd yn cefnogi partneriaethau, y wasg a'r gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol di-dâl sydd wedi'u hanelu at wladolion tramor cymwys a phobl ifanc 16 a 17 oed.

Gallwch lawrlwytho adnoddau digidol ac argraffu i helpu i annog dinasyddion tramor cymwys a phobl ifanc 16 ac 17 oed i gofrestru i bleidleisio.

**Ymgyrch tryloywder gwleidyddol**
Rydym unwaith eto yn cynnal ein hymgyrch tryloywder digidol cyn yr etholiadau ym mis Mai sydd â'r nod o annog pobl i feddwl yn fwy gofalus am yr hysbysebion ymgyrchu gwleidyddol y maent yn eu gweld ar-lein. Rydym am i bobl fod yn hyderus ynghylch deall ymgyrchu gwleidyddol digidol; deall pwy sy'n eu targedu nhw a pham, a deall sut i gymryd camau os byddant yn gweld rhywbeth sy'n destun pryder iddynt.

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddat-danysgrifio unrhyw bryd.**

Bydd yr ymgyrch yn cael ei gynnal o 25 Mawrth – 4 Mai ar Facebook ac Instagram ac mae wedi'i hanelu at bobl ifanc 18 – 24 oed.

**Mae templedi datganiadau i'r wasg bellach yn fyw**
Rydym wedi cynhyrchu pedwar datganiad templed i'r wasg i'ch helpu i rannu gwybodaeth allweddol gyda phleidleiswyr am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud ar wahanol adegau cyn y diwrnod pleidleisio. Mae'r templedi hyn wedi'u cynllunio fel y gallwch eu haddasu i'r etholiadau sy'n cael eu cynnal yn eich ardal leol. Mae ein templedi yn cynnwys:

- Cofrestru pleidleiswyr – hysbysu pleidleiswyr am etholiadau sydd ar ddod a sut y maent yn cofrestru i bleidleisio
- Pythefnos tan y dyddiad cau ar gyfer cofrestru (31 Mawrth) – nodyn atgoffa i gofrestru cyn i'r dyddiad cau agosáu
- Wythnos tan y dyddiad cau ar gyfer cofrestru (7 Ebrill) – nodyn pellach i atgoffa bod y dyddiad cau yn agosáu ar gyfer cofrestru i bleidleisio
- Gwybodaeth i bleidleiswyr – gwybodaeth allweddol am hygyrchedd a sut i ddod o hyd i'ch gorsaf bleidleisio. Rydym yn argymell eich bod yn dosbarthu'r datganiad hwn i'r wasg yn ystod yr wythnos olaf cyn y diwrnod pleidleisio (28 Ebrill – 5 Mai)

Gallwch lawrlwytho templedi datganiadau i'r wasg a'u defnyddio i helpu i godi ymwybyddiaeth o etholiadau Mai 2022.

## Swyddi ar gael yn y Comisiwn Etholiadol

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio ar gyfer y swyddi canlynol:

- Swyddog Canllawiau (Canllawiau Etholiadol) – FTC tan fis Mai 2024
- Uwch Gynghorydd (Canllawiau Etholiadol) - FTC tan fis Mai 2024
- Swyddog Cyswllt Rhanbarthol (Canolbarth Lloegr)
- Uwch Gyfreithiwr

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer rôl y Swyddog Canllawiau (Canllaw Etholiadol) yw 3 Ebrill. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer rôl yr Uwch Gynghorydd (Canllaw Etholiadol) yw dydd Mercher 23 Mawrth 2022. Os hoffech sgwrs anffurfiol am y rolau, cysylltwch â Mark Pascoe, Rheolwr Canllawiau Cofrestru Etholiadol, trwy 020 7271 0690.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer rôl Swyddog Cyswllt Rhanbarthol (Canolbarth Lloegr) yw dydd Sul 27 Mawrth 2022. Os hoffech drafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Mel Davidson, Pennaeth Cymorth a Gwelliant ar 020 7271 0552.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer rôl yr Uwch Gyfreithiwr yw dydd Mercher 30 Mawrth. Os hoffech drafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Binnie Goh, Cwnsler Cyffredinol drwy anfon neges e-bost at bgoh@electoralcommission.org.uk.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth neu os hoffech wneud cais, ewch i dudalen recriwtio ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.electoralcommission.org.uk**

© Y Comisiwn Etholiadol 2022